NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Brentuximab vedotin ar gyfer trin lymffoma croenol cell T CD30-positif

24 Ebrill 2019

Mae Brentuximab vedotin (Adcetris) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer lymffoma croenol cell T CD30-positif ymhlith oedolion os yw'r canlynol yn wir:

- maent eisoes wedi cael 1 sesiwn therapi
- mae ganddynt mycosis fungoides cam IIB neu drosodd, lymffoma croenol celloedd mawr anaplastig systemig sylfaenol neu syndrom Sézary.

Os nad ydych yn gymwys i gael brentuximab vedotin, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Lymphoma Action, 0808 808 5555
- Bloodwise, 0808 2080 888
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3378-5



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.